

Adroddiad ar y Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg, 2013

Elin Meek, Prif Arholwr

Diolch i bawb a fu'n ymwneud â chynnal y Dystysgrif eleni, yn farcwyr, goruchwylwyr a gweinyddwyr. Roedd sawl rhwystr ymarferol i'w goresgyn a dylid llongyfarch pawb am lwyddo i wneud hynny. Hoffwn gydnabod fy nyled arbennig i Rhinedd Williams yn swyddfa ganolog y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a drodd bob dryswch yn drefn glir.

1. CWMPAS

Braf nodi i saith canolfan fanteisio ar y cyfle i gynnig y Dystysgrif eleni. Yn ychwanegol at y tair canolfan a gymerodd ran yn y rhaglen beilot, (Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant), cafwyd ymgeiswyr o Brifysgol Aberystwyth, Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Safodd 40 ymgeisydd y Dystysgrif, wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	9 ymgeisydd
Prifysgol Bangor	8 ymgeisydd
Prifysgol Caerdydd	8 ymgeisydd
Prifysgol Aberystwyth	8 ymgeisydd
Prifysgol Morgannwg	4 ymgeisydd
Prifysgol Abertawe	2 ymgeisydd
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	1 ymgeisydd

2. CYMORTH I FYFYRWYR BARATOI AT YR ARHOLIAD

Eleni, am y tro cyntaf, roedd pecyn o adnoddau cyfrifiadurol o waith Canolfan Peniarth, PCYDDS ar gael i fyfyrwyr o fis Mawrth ymlaen. Yn ogystal, ar ôl penodi Cris Dafis yn diwtor i rai canolfannau a dod i drefniant â staff addysgu mewn canolfannau eraill, cynigiwyd sesiynau cyn yr arholiad ar sawl agwedd ar y Dystysgrif, megis y cyflwyniadau llafar, defnyddio arfau cyfrifiadurol, golygu testun, sgiliau iaith cymhwysol ac ysgrifennu rhydd. Mae'n debyg i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr fanteisio ar y ddarpariaeth hon.

3. BRAS GANLYNIADAU

Dyma fras ganlyniadau'r Dystysgrif eleni:

Rhagoriaeth	6 ymgeisydd (15%)
Llwyddo	28 ymgeisydd (70%)
Methu	6 ymgeisydd (15%)

Mae dwy elfen i'r Dystysgrif, sef y Dasg Lafar a'r Arholiad Ysgrifenedig, ac mae gofyn i'r ymgeiswyr lwyddo neu gael rhagoriaeth **yn y ddwy elfen** er mwyn ennill y Dystysgrif ar y lefel honno. Ceir rhai ymgeiswyr sydd yn pontio dosbarthiadau a dyma fanylu felly ar y bras ganlyniadau uchod:

Rhagoriaeth yn y ddwy elfen	6 ymgeisydd
Rhagoriaeth (Ysg.)/Llwyddo (Llaf.)	4 ymgeisydd
Llwyddo (Ysg.)/Rhagoriaeth (Llaf.)	8 ymgeisydd
Llwyddo yn y ddwy elfen	16 ymgeisydd
Methu (Ysg.)/Llwyddo (Llaf.)	4 ymgeisydd
Methu yn y ddwy elfen	2 ymgeisydd

4. CYNWYS

4.1 Y Dasg Lafar

Y dasg a osodwyd i'r ymgeiswyr oedd rhoi cyflwyniad ar agwedd ddiddorol ar eu pwnc/maes academiaidd i gymdeithas leol (h.y. lleygwyr). Roedd y cyflwyniad i bara 7 munud ac yna byddid yn gofyn cwestiynau am ryw 8 munud. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr baratoi adnodd ysgrifenedig ar ffurf taflen bapur neu gyflwyniad PowerPoint.

Mireiniwyd rhywfaint ar ffurflen asesu'r rhaglen beilot ac addaswyd meini prawf a ddarparodd Dr Dylan Foster Evans, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Roedd y ffurflen asesu a'r meini prawf ar gael i'r ymgeiswyr eu gweld ar y we ymlaen llaw.

Ymwelwyd ag un ganolfan (Prifysgol Abertawe) i weld cyflwyniadau dau ymgeisydd ac roedd y drafodaeth asesu â'r tiwtor a'r swyddog cangen yn fuddiol iawn.

Yn ychwanegol at hyn, gwelwyd 15 cyflwyniad arall ar fideo, gyda'r sampl yn cynnwys ystod o ran safon. Roedd ansawdd y recordiadau fideo hyn yn dda iawn felly diolch yn fawr i bawb am ymateb mor gadarnhaol i sylwadau adroddiad y rhaglen beilot y llynedd. Fel y byddid yn disgwyl, roedd y pynciau'n amrywio yn ôl meysydd academiaidd y myfyrwyr a dyma rai enghreifftiau: Patagonia, Ewthanasia, Ailgylchu, Ysgol y Goedwig, Griffith Jones, Cyfrifiaduron Cwantwm, Cyflogau Pêl-droedwyr, Yr Holocost, Datblygiadau i Ewrop, Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru a'r Comisiynydd Heddlu a throsedd.

Dyma rai sylwadau:

- Roedd dau berson yn bresennol ym mhob cyflwyniad ac i asesu'r ymgeiswyr.
- Roedd y ffurflenni asesu'n dangos ôl tafoli gofalus a oedd yn ystyried pob un o'r meini prawf, ond gan roi mwy o bwyslais ar gystrawennu a chywirdeb.
- Efallai bod lle i sawl ymgeisydd ystyried pa mor addas mewn gwirionedd oedd eu cyflwyniad i ofynion y dasg, h.y. cyflwyniad i gymdeithas leol. Roedd hi'n ymddangos i rai ailddefnyddio cyflwyniad seminar.
- Mewn un ganolfan yn unig y cadwyd at faen prawf y deunydd gweledol (hyd at gyfanswm o 6 sleid).

4.2 Yr Arholiad Ysgrifenedig

Cynhaliwyd yr arholiad ysgrifenedig ar yr un adeg yn y saith canolfan, a hynny ar gyfrifiaduron. Roedd yn cynnwys tair tasg sy'n cynrychioli'r hyn a ddisgwyliid gan y sawl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

- i. Golygu darn (a oedd yn cynnwys rhai gwallau y byddai Cysill yn eu codi) **[20%]**
- ii. Trawsieithu (darn Saesneg i'w grynhoi yn Gymraeg) **[40%]**
- iii. Ysgrifennu rhydd (erthygl fer yn crynhoi manteision dilyn eu cwrs gradd)**[40%]**

Paratowyd cynllun marcio penodol i'r tri chwestiwn, a thaflen asesu'r un i gwestiynau ii a iii. Rhoddwyd cynlluniau marcio a thafleini asesu cwestiynau ii a iii ar y we i'r ymgeiswyr eu gweld ymlaen llaw. Roedd Cysill a gwirydd sillafu Word ar gael i'w defnyddio ar gyfer pob un o'r tasgau (er na fanteisiodd pob ymgeisydd arnynt). Cafodd pob ymgeisydd gopi o'r Arholiad Ysgrifenedig ar bapur ac ar gof bach.

O ran y sampl, gwelwyd 21 papur arholiad: 6 ymgeisydd aflwyddiannus, 9 ymgeisydd a lwyddodd a 6 ymgeisydd a enillodd ragoriaeth.

Dyma rai sylwadau cyffredinol:

Golygu darn

- Roedd y marciau'n amrywio o 95% i 20%.
- O'r tri marc yn yr arholiad ysgrifennu, hwn oedd marc isaf nifer helaeth o'r ymgeiswyr, gyda 47.5% ohonynt (19 ymgeisydd) yn methu.
- Serch hynny, cafodd 11 ymgeisydd (27.5%) farc Rhagoriaeth am y cwestiwn hwn. Hwn oedd marc uchaf 4 o'r 7 ymgeisydd a enillodd ragoriaeth yn y pen draw.
- Ni thynnwyd marciau am gywiro diangen.

- Roedd yr ymgeiswyr wedi deall y dasg yn well eleni ac wedi cywiro'r gwallau, yn hytrach nag ailysgrifennu'r darn gan newid y cywair a'r arddull fel y gwnaeth rhai'r llynedd.

Trawsieithu

- Roedd y marciau'n amrywio o 90% i 38%, gyda 9 yn ennill marciau rhagoriaeth.
- Ymatebodd yr ymgeiswyr yn gadarnhaol i'r cyfarwyddiadau ac eithriadau prin yn y sampl oedd y rhai a ysgrifennodd ormod neu ry ychydig o eiriau.
- Gwelwyd enghreifftiau o sgiliau trawsieithu ardderchog er nad oedd gan bob ymgeisydd adnoddau ieithyddol i fynegi'r pwyntiau'n llwyddiannus bob tro.

Ysgrifennu rhydd

- Un ymgeisydd yn unig a fethodd y rhan hon o'r papur. Llwyddodd 9 ymgeisydd i ennill marc rhagoriaeth.
- Roedd ambell enghraifft yn y sampl lle nad oedd yr ymgeiswyr wedi cyflawni gofynion penodol y dasg yn llwyddiannus iawn.

5 Y DYFODOL

Mae sawl her yn wynebu'r Dystysgrif wrth i niferoedd yr ymgeiswyr gynyddu dros y blynyddoedd i ddod.

- Efallai y dylid ystyried cael dau gyfnod arholi gan fod cynnal yr arholiad ysgrifenedig ychydig cyn arholiadau terfynol y drydedd flwyddyn yn rhoi pwysau mawr ar y myfyrwyr hynny.
- Os yw niferoedd yr ymgeiswyr yn cynyddu'n ddirfawr, efallai y bydd angen ailfeddwl am ddull cynnal yr arholiad ysgrifenedig wrth i'r goblygiadau ymarferol (o ran sefyll a gweinyddu'r arholiad) fynd yn drech na'r adnoddau sydd ar gael.
- Yn ogystal, gyda mwy o ymgeiswyr, efallai y gellid cynnig cyfnodau i'r myfyrwyr hynny sy'n barod i sefyll y dasg lafar yn gynharach yn ystod y flwyddyn academaidd, ar ambell brynhawn dydd Mercher yn nhymhorau'r hydref a'r gwanwyn, er enghraifft.